

<b>POLISI ASESIAD O'R EFFAITH AR BREIFATRWYDD</b>			
<b>Adran</b>	Cynllunio Strategol		
<b>Awdur</b>	Ymgynghorydd Gwasanaethau Cyfreithiol		
<b>Awdurdodwyd Gan:</b>	Cyfarwyddwr Cyswllt Cynllunio Strategol		
<b>Gweithredwyd Gan:</b>	Cyfarwyddwr Cyswllt Cynllunio Strategol		
<b>Cyfeirnod y Polisi:</b>	POSP1718007		
<b>Polisi a Ddisodlir:</b>	Ddim yn berthnasol		
<b>Rhif y Fersiwn:</b>	1	<b>Pwyllgor Cymeradwyo:</b>	Bwrdd yr Is-ganghellor
<b>Dyddiad Cymeradwyo:</b>	17.04.18	<b>Rhif y Cofnod:</b>	17.96.05
<b>Statws:</b>	Cymeradwywyd	<b>Dyddiad Gweithredu:</b>	Mai 18
<b>Cyfnod Cymeradwyo:</b>	3 blynedd	<b>Dyddiad Adolygu:</b>	Mai 21
Rwyf wedi gwneud asesiad sgrinio effeithiau ar gydraddoldeb i helpu i ddiogelu yn erbyn gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb.			✓
Rwyf wedi ystyried effaith y Polisi/Strategaeth/Gweithdrefn ( <i>dilêwch fel sy'n briodol</i> ) ar yr iaith Gymraeg a darpariaeth yr iaith Gymraeg yn y Brifysgol.			✓

**EGLURHAD O'R TERMAU A DDEFNYDDIR**

**Achrediad Asedau Gwybodaeth** - Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd ar raddfa fach a graddfa lawn yn ffurfio rhan o'r ddogfennaeth achredu ar gyfer Asedau Gwybodaeth

**Ased Gwybodaeth** - Ased Gwybodaeth yw Defnyddiwr Gwasanaeth, myfyriwr, staff neu wybodaeth/data corfforaethol, a brosesir gennym ni ac sy'n cael ei gadw ar ffurf electronig neu gopi caled/llawlyfr.

**GDPR** - Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

**Data Personol Cyfrinachol** - data megis enw, cod post, meddyg teulu, perthynas agosaf, cyfeiriad, dyddiad geni etc.

**Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd** - (PIA) Techneg risg a gefnogir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i alluogi sefydliadau i fynd i'r afael â phryderon preifatrwydd ac i sicrhau yr eir i'r afael â dulliau diogelu priodol ac y cânt eu hadeiladu'n rhan o brosiectau neu gynlluniau i ddatblygu asedau gwybodaeth presennol.

**Prosiectau / Cynlluniau i'w datblygu** - Mae Asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd yn ofynnol pan fo prosiectau newydd yn cael eu gweithredu (er enghraifft cyflwyno adnoddau dynol neu gyflogres electronig newydd) neu lle mae cynlluniau wedi'u cynnig i ddatblygu ased gwybodaeth presennol. Gall y rhain fod ar bapur yn ogystal ag yn electronig.

Data Sensitif - **dan Ddeddf Diogelu Data 1998, data megis diagnosis claf, hanes meddygol, ethnigrwydd, rhywedd, crefydd.** POLISI ASESIAD O'R EFFAITH AR BREIFATRWYDD

## **Cyflwyniad**

Mae'r polisi Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd ('PIA') hwn yn berthnasol i unrhyw aelod o staff sy'n gyfrifol am reoli "prosiect" neu "gynllun" newydd i addasu unrhyw system bresennol (ased gwybodaeth).

Mae prosiectau **NEWYDD** sy'n ymwneud â data personol cyfrinachol neu dechnolegau mewnwithiol yn codi materion a phryderon preifatrwydd. Mae preifatrwydd yn cynnwys "cyfrinachedd" a "chaniatâd gan fyfyrwr" ac fel egwyddor gyffredinol mae'r polisi hwn yn hyrwyddo y dylid ystyried y parch hwnnw tuag at breifatrwydd ac urddas myfyrwr a staff ar ddechrau unrhyw brosiect, sy'n ymwneud â chyfrinachedd a chaniatâd staff a myfyrwr. I alluogi'r Brifysgol i fynd i'r afael â phryderon a pheryglon preifatrwydd, **rhaidd** defnyddio techneg y cyfeirir ati fel Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd (PIA), fel y cefnogir gan y Comisiynydd Gwybodaeth. **Gweler Atodiad 1 'Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd'.**

Gan ein bod yn sefydliad awdurdod cyhoeddus rydym wedi'n cofrestru dan Ddeddf Diogelu Data 1998 gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel rheolwr data dan y rhif cofrestru Z5199192 *i'n 'galluogi ni i ddarparu addysg a gwasanaethau cefnogi i'n myfyrwr a'n staff; hysbysebu a hyrwyddo'r brifysgol a'r gwasanaethau a gynigiwn; cyhoeddi cylchgrawn y brifysgol a chysylltiadau â chyn-fyfyrwr, ymgymryd ag ymchwil a chodi arian; rheoli ein cyfrifon a'n cofnodion a darparu gweithgareddau masnachol i'n cleientiaid. Rydym hefyd yn prosesu gwybodaeth bersonol ar gyfer y defnydd o systemau Teledu Cylch Cyfyng i fonitro a chasglu delweddau gweledol at ddibenion diogelwch ac atal a datgelu trosedd'*. Felly, rydym yn prosesu gwybodaeth myfyrwr a staff sy'n cael ei dosbarthu fel Data Personol Cyfrinachol (PCD) a data sensitif.

## **Beth yw asesiad o'r effaith ar ddiogelu data?**

Mae asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data yr un fath ag asesiadau o'r effaith ar breifatrwydd neu PIA, sy'n offeryn a all helpu'r Brifysgol i adnabod y ffordd fwyaf effeithiol o gydymffurfio â'n rhwymedigaethau diogelu data a bodloni disgwyliadau preifatrwydd unigolion. Bydd Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data effeithiol yn ein caniatáu ni i adnabod ac atgyweirio problemau yn gynt, gan leihau'r costau cysylltiedig a'r niwed i'n henw da, a allai ddigwydd fel arall.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi hyrwyddo'r defnydd o Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data fel rhan annatod o gymryd dull gweithredu dylunio preifatrwydd.

Gweler [cod ymarfer cynnal asesiadau o'r effaith ar breifatrwydd](#) Swyddfa'r Comisiynydd

Gwybodaeth i gael cyngor ar arfer dda.

Rhaid i'r Brifysgol gydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, Deddf Diogelu Data 1998 (fel y'i diwygiwyd) a Deddfau Preifatrwydd eraill y DU wrth i ni brosesu gwybodaeth o'r fath. Mae'r Brifysgol wedi drafftio'r polisi hwn drwy ddilyn canllaw arfer dda a chwestiynau sgrinio Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a amlinellir yn **Atodiad 1**.

Rhaid i chi wneud Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data wrth ddefnyddio technolegau newydd ac mae'r prosesu yn debygol o arwain at risg uchel i hawliau a rhyddid unigolion. Er enghraifft, byddai hyn yn cynnwys newid yn y rhaglen derbyn myfyrwyr neu raglen AD newydd i staff neu gyflogres/cyllid. Mae hyn oherwydd nad yw'r rhaglen yn eiddo i'r Brifysgol ond mewn gwirionedd yn 'eiddo' i ddatblygwr y rhaglen neu'r offeryn y byddwn ni'n ei ddefnyddio. Byddai'r 'perchennog' wedi rhoi hawliau neu drwydded i'r Brifysgol i ddefnyddio eu rhaglen, felly, byddai ganddynt ffordd o gael mynediad at y data hwnnw. Mae angen i'r Brifysgol ganfod pwy sydd â mynediad ac a oes gan 3<sup>ydd</sup> parti allu i weld y data ai peidio.

Mae prosesu sy'n debygol o arwain at risg uchel yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i'r canlynol):

- gweithgareddau prosesu systematig neu eang, gan gynnwys proffilio a lle bo penderfyniadau yn cael effeithiau cyfreithiol - neu effeithiau sylweddol cyffelyb - ar unigolion.
- prosesu categorïau arbennig o ddata neu ddata personol sy'n gysylltiedig ag euogfarnau neu droseddau ar raddfa fawr.

Mae hyn yn cynnwys prosesu swm sylweddol o ddata personol ar lefel rhanbarthol, cenedlaethol neu dra gwlatgar; sy'n effeithio ar nifer fawr o unigolion; ac sy'n cynnwys risg uchel i hawliau a rhyddid e.e. ar sail sensitifrwydd y gweithgaredd brosesu.

- monitro ardaloedd cyhoeddus ar raddfa fawr ac yn systematig (Teledu Cylch Cyfyng).

### **Pa wybodaeth y dylai'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data ei chynnwys?**

- (i) Disgrifiad o'r gweithrediadau a'r dibenion prosesu, gan gynnwys, lle bo'n berthnasol, y buddion cyfreithlon a erlidir gan y rheolwr (*gweler Erthygl 6 y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data sy'n nodi'r amodau prosesu cyfreithiol sy'n perthyn i Amserlen 2 Deddf Diogelu Data*).
- (ii) Asesiad o anghenraid a chyfranolededd y prosesu yng nghyswllt y diben.
- (iii) Asesiad o'r risg i'r unigolion.
- (iv) Y mesurau sydd mewn lle i ymdrin â risgiau, gan gynnwys diogelwch ac i ddangos eich bod yn cydymffurfio.
- (v) Gall Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data ymdrin â mwy nag un prosiect.

Y darpariaethau perthnasol yn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data - gweler Erthyglau 35, 36 a 83 ac Adroddiadau 84, 89 a 96.

Pa fath o Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd y dylwn i ei gwblhau?

Ar gyfer yr holl systemau newydd neu sydd eisoes yn eu lle, cwblheir Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd ar raddfa fach yn gyntaf. Dilynir hyn gan Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd ar raddfa lawn.

#### Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd ar Raddfa Fach

Yn debyg i Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd ar raddfa lawn, ond yn llai ffurfiol. Mae'n gofyn am gasglu data a dadansoddi llai trwyadl. Fwyaf tebygol o gael ei ddefnyddio wrth ganolbwyntio ar agweddau penodol ar y prosiect.

#### Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd ar Raddfa Lawn

Cynnal asesiad mewnol dyfnach o risgiau ac atebolrwydd preifatrwydd. Dadansoddi risgiau preifatrwydd, ymgynghori'n eang â rhanddeiliaid ar bryderon preifatrwydd ac yn cyflwyno datrysiadau i'w derbyn, eu lleihau neu eu hosgoi.

Darperir canllaw Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd i aelodau o staff gan y Swyddog Diogelu Data, fel rhan o'r hyfforddiant Perchennog Ased Gwybodaeth. Y Swyddog Diogelu Data sydd hefyd yn gyfrifol am sicrhau y rhoddir cefnogaeth a chyfarwyddyd pan fo gofyn i aelodau o staff lenwi'r Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd.

### **DIBEN**

Nod Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd yw sicrhau bod systemau a gweithdrefnau o fewn y Brifysgol yn addas at y diben ac yn cynnwys dylunio preifatrwydd. **Rhaid** asesu cyfrinachedd a diogelwch gwybodaeth o fewn yr ased gwybodaeth. Hefyd, rhaid bod ystyriaeth gynhwysfawr o effeithiau posibl ar ansawdd a diogelwch gwybodaeth yn ystod cam dylunio unrhyw broses newydd neu gaffaeliad ased gwybodaeth newydd.

#### Dylunio Preifatrwydd

Manteision dull gweithredu 'dylunio preifatrwydd':

Mae cymryd dull gweithredu dylunio preifatrwydd yn offeryn hanfodol i leihau risgiau preifatrwydd ac i adeiladu ffydd. Gall dylunio prosiectau, prosesau, cynnyrch neu systemau gyda phreifatrwydd mewn golwg o'r dechrau arwain at fanteision sy'n cynnwys:

- Problemau posibl yn cael eu hadnabod yn gynnar, pan fo ymdrin â nhw yn fwy syml a llai costus yn aml.
- Ymwybyddiaeth well o breifatrwydd a diogelu data ar draws sefydliad.
- Mae sefydliadau yn fwy tebygol o gyrraedd eu rhwymedigaethau cyfreithiol ac yn llai tebygol o dorri'r Ddeddf Diogelu Data.
- Gweithredoedd yn llai tebygol o ymwithio preifatrwydd a chael effaith negyddol ar unigolion.

### **CWMPAS**

Cwmpas y ddogfen hon yw amlinellu dull gweithredu a methodoleg y Brifysgol ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd i systemau presennol nad ydynt wedi cael Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd o'r blaen a systemau **NEWYDD**.

Mae'n ymdrin â'r holl asedau sydd ar bapur neu'n electronig yn y Brifysgol.

Mae'r Polisi hwn yn ymdrin â'r holl staff a gyflogir gan y Brifysgol, contractwyr preifat, gwirfoddolwyr a staff dros dro.

## **DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU**

Mae cydymffurfio â Pholisi a gweithdrefnau Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd yn hanfodol i sicrhau agweddau ar y cylch gorchwyl ac agenda'r Pwyllgor Llywodraethiant Gwybodaeth, caiff hwn ei gynnal a'i gefnogi gan yr

### **Is-ganghellor**

Swyddog Atebol y Brifysgol yw'r Is-ganghellor sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod risgiau gwybodaeth yn cael eu hasesu a'u lliniaru i lefel dderbyniol. Caiff risg gwybodaeth ei thrin mewn ffordd gyffelyb i risgiau eraill megis risgiau ariannol, cyfreithiol ac i enw da.

Mae cyfeiriad at reolaeth risgiau gwybodaeth ac arfer llywodraethiant gwybodaeth gysylltiedig bellach yn ofynnol yn y Datganiad Rheolaeth Fewnol y mae gofyn i'r Swyddog Atebol ei lofnodi'n flynyddol.

### **Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO)**

Yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth yw Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol. Mae'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth yn aelod o Dîm Gweithredol yr Is-ganghellor (VCET) sydd â phrif gyfrifoldeb neilltuo am risgiau gwybodaeth y Brifysgol ac sy'n darparu ffocws i reolwyr risg gwybodaeth ar lefel y Bwrdd.

Cyfrifoldebau allweddol Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth yw;

- sicrhau bod y polisi hwn a'r amcanion diogelwch gwybodaeth yn cydweddu â chyfeiriad strategol y Brifysgol;
- sicrhau bod data ac asedau gwybodaeth yn cael eu hadnabod; bod y rolau data a'r llywodraethiant gwybodaeth ar y lefel uchaf
- yn cael eu neilltuo a bod deiliaid swyddi wedi'u briffio'n briodol ar eu rolau diogelwch gwybodaeth ac yn gwneud eu dyletswyddau gyda diwydrwydd dyladwy;
- perchenogi'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r amcanion diogelwch gwybodaeth a sicrhau bod perchnogion rheoli gweithred yn cael eu hadnabod;
- sicrhau bod gweithdrefnau eithriad yn eu lle i awdurdodi ar lefel briodol o dderbyn neu lliniaru risgiau diogelwch gwybodaeth sylweddol sy'n gwyro o'r safonau cytunedig;
- penderfynu pa bryd a gan bwy y dylid adrodd toriadau o ddiogelwch gwybodaeth i awdurdodau allanol perthnasol;
- sicrhau bod cyfeiriad clir a chefnogaeth rheoli gweledol i fentrau diogelwch a hyrwyddo gwelliant parhaus;
- sicrhau bod yr Is-ganghellor, y Brifysgol a'r Bwrdd Llywodraethwyr wedi'u briffio'n briodol ar faterion rheoli risgiau.

## Swyddog Diogelu Data

Mae'r Swyddog Diogelu Data yn gyfrifol am sicrhau bod y sefydliad yn bodloni ei gyfrifoldeb statudol a chorfforaethol ac mae hefyd yn atebol am:

- sicrhau rheolaeth, atebolrwydd, cydymffurfiaid a sicrwydd effeithiol i bob agwedd ar Lywodraethiant y Wybodaeth;
- sicrhau mai yn unol â chylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethiant Gwybodaeth y cymerir mesurau priodol i sicrhau y rhoddir ystyriaeth ddigonol i'r Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd;
- darparu cefnogaeth i aelodau o staff y mae gofyn iddynt lenwi'r Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd drwy ddarparu Hyfforddiant Perchnogion Asedau Gwybodaeth a rhagor o gefnogaeth i lenwi'r Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd fel y tybir yn angenrheidiol

## Perchnogion Asedau Gwybodaeth (IAO) - Cyfarwyddwyr, Cyfarwyddwyr Cyswllt, Penaethiaid Ysgolion, Rheolwyr Etc.

Caiff yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth ei gefnogi gan Berchnogion Asedau Gwybodaeth adrannol sy'n uwch reolwyr yn ymglymedig â rhedeg y gwasanaethau perthnasol. Eu rôl yw deall pa wybodaeth a gedwir, yr hyn a ychwanegir, yr hyn a ddiddymir, sut mae symud gwybodaeth, pwy sydd â mynediad a pham. O ganlyniad, gallent ddeall ac ymdrin â risgiau i asedau gwybodaeth y maent yn "berchen" arnynt a darparu sicrwydd i'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth ar ddiogelwch yr asedau a sut i'w defnyddio. Mae holl gytundebau cyflogaeth Perchnogion Asedau Gwybodaeth yn adlewyrchu eu cyfrifoldebau am lywodraethiant gwybodaeth.

## Gweinyddwyr Asedau Gwybodaeth (IAA)

Mae Gweinyddwyr Asedau Gwybodaeth yn gweithio gydag asedau gwybodaeth yn ddyddiol. Mae ganddynt gyfrifoldeb o ddydd i ddydd, sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau yn cael eu dilyn gan staff ac adnabod digwyddiadau diogelwch gwirioneddol neu bosibl, ac ymgynghori â'u Perchnogion Asedau Gwybodaeth ynglŷn â digwyddiadau. Gallent fod yn adnabyddus fel Rheolwr Cymhwysiad i System Gwybodaeth.

## Diogelwch Gwybodaeth

Cyfarwyddwr Cyswllt Gwasanaethau Gwybodaeth sy'n gyfrifol am ddarparu a rheoli Gwasanaeth Diogelwch Technoleg Gwybodaeth o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, gan ddefnyddio arbenigedd i reoli materion diogelwch, gan adnabod arfer dda a gwneud awgrymiadau am weithrediad lleol.

PROSES RHEOLI ASESAD O'R EFFAITH AR BREIFATRWYDD

## Y Broses Rheoli Ased Gwybodaeth a'r Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd

Mae angen i Asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd gael eu cwblhau yn gynnar yn y prosiect **CYN** caffael y system 'arfaethedig' newydd neu **CYN** bod y 'newid' arfaethedig wedi digwydd fel rhan o'r Broses Rheoli Asedau Gwybodaeth.

Mae'r adran nesaf yn egluro'r camau pwysig a/neu wybodaeth i'w hystyried wrth edrych ar systemau newydd neu newid y rheiny sydd eisoes yn cael eu defnyddio gan y Brifysgol. Y nod yw sicrhau bod holl elfennau'r prosiect all gael effaith ar allu'r Brifysgol i ddiogelu ei data yn cael eu hystyried.

## **PROSES ASESIAD O'R EFFAITH AR BREIFATRWYDD**

**Mae'r Perchennog Asedau Gwybodaeth penodedig yn gyfrifol am sicrhau bod yr Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd yn cael ei gwblhau** ac y gwneir yr Asesiad gyda chymorth a chyfarwyddyd gan unigolion eraill fel sy'n briodol, h.y. y Swyddog Diogelu Data, Cyfarwyddwr Cyswllt y System Wybodaeth.

**Rhaid** dilyn y broses ganlynol:

### **CAM 1**

a. Rhowch wybod i'r Arweinwyr priodol (Cyfarwyddwyr/ Cyfarwyddwyr Cyswllt/ Penaethiaid Ysgolion) am y broses o System / Proses newydd neu newid Arfaethedig i System Wybodaeth. Mae cyfathrebu yn hanfodol i sicrhau y cydymffurfir â rhestr wirio a phrosesau.

### **CAM 2**

- a. Bydd y Swyddog Diogelu Data yn dechrau'r ddogfennaeth Achrediad Asedau Gwybodaeth drwy anfon y polisi hwn ymlaen at y Perchennog Asedau Gwybodaeth.
- b. Rhestr Wirio Diogelwch Llywodraethiant Gwybodaeth cychwynnol i'w wneud gan y Perchennog Ased Gwybodaeth / Gweinyddwr Asedau Gwybodaeth. (*ASESIAD O'R EFFAITH AR BREIFATRWYDD AR RADDFA FACH*)
- c. Gwneir Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd, a gefnogir gan y Swyddog Diogelu Data. Os oes system electronig yn ymglymedig â hyn, ceisiwch gyngor a chefnogaeth gan Gyfarwyddwr Cyswllt Gwasanaethau TGCh.
- d. Unwaith y canfyddir bod y system yn cadw Data Personol Cyfrinachol a Data Sensitif, bydd angen cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar raddfa lawn, gyda chefnogaeth gan y Swyddog Diogelu Data.
- e. Lle canfyddir nad oes cydymffurfiad yn yr Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd ar raddfa fach / graddfa lawn, yna bydd angen cwblhau asesiadau risg, dygir y risgiau at sylw'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth yn ôl yr angen.

### **CAM 3**

- a. Proses Caffael yn dechrau; sy'n sail i ganlyniadau gwiriadau TG a Llywodraethiant Gwybodaeth a'r Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd.
- b. Cynllun gweithredu i sicrhau bod Asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd yn cael eu mewnosod yng nghylch bywyd Asedau Gwybodaeth.
- c. Bydd y Swyddog Diogelu Data yn datblygu dogfen Achredu Asedau Gwybodaeth yn

unol â datblygiad y prosiect.

- d. Bydd y Swyddog Diogelu Data yn sicrhau bod holl ddogfennau Achrediad Asedau Gwybodaeth yn cael eu cymeradwyo gan yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth mewn cydweithrediad â'r Dirprwy Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth ac Ymgynghorydd Cyfreithiol y Brifysgol a bod proses o archwilio ac adolygu wedi'i roi mewn lle.

Drwy ddilyn y broses hon a sicrhau bod y Swyddog Diogelu Data yn cael ei hysbysu a'i gynnwys o gychwyn cyntaf y prosiect, gallwn ddarparu sicrwydd bod gwybodaeth y Brifysgol yn cael ei thrin mewn modd diogel a chyfrifol ac yn cydymffurfio â Deddfau DU.

***Noder: Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd yn berthnasol yn unig lle mae prosiect/system/gweithdrefn newydd neu newid arfaethedig i system/proses yn defnyddio data personol cyfrinachol (PCD) ynghyd â data sensitif, neu newid y ffordd yr ymdrinir â data personol yn sylweddol***

O ganlyniad i Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd gorffenedig, rhaid cynllunio ac ysgrifennu cynllun gweithredu i'w gymeradwyo yn gyntaf a'i archwilio a'i fonitro wedyn gan grŵp llywio Llywodraethiant Gwybodaeth.

Mae hyn yn sicrhau bod risgiau gwybodaeth yn cael eu cofnodi, gan liniaru gydag adroddiad blynyddol i sicrhau cydymffurfiaid parhaus gyda chyfrinachedd, diogelu data a diogelwch.

Dilynwch y weithdrefn a nodwyd yn Atodiad A o'r ddogfen hon i lenwi'r Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd.

## **HYFFORDDIANT**

Darperir cyfarwyddyd o natur yr Asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd i Berchnogion Asedau Gwybodaeth a Gweinyddwyr. Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant pwrpasol gan y Swyddog Diogelu Data o'r enw "Hyfforddiant Perchennog Asedau Gwybodaeth".

Rhoddir gwybod i holl Berchnogion Asedau Gwybodaeth (IAO) o'u cyfrifoldebau am ddiogelu eu Hasedau Gwybodaeth trwy raglenni a chyfarwyddyd cyffredinol ac arbenigol.

Mae angen i IAO gael dealltwriaeth o:

- beth yw asesiad o'r effaith ar breifatrwydd a pha asedau gwybodaeth sy'n berthnasol i'w gael;
- pa asedau gwybodaeth y mae ganddynt gyfrifoldeb drostynt;
- pa bryd i gymhwyso Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd;
- sut mae'n cysylltu â chaffaeliad neu weithrediad system newydd;
- sut i ymgorffori'r cynlluniau gweithredu i gynllun prosiect;
- gwybod pwy i gysylltu â nhw am gyngor a chyfarwyddyd.

## **ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

Mae'n ofynnol i'r holl bersonau perthnasol gydymffurfio â'r ddogfen hon a rhaid iddynt



ddangos sensitifrwydd a chymhwysedd yng nghyswllt y naw nodwedd warchoddedig fel y diffinnir gan Ddeddf Gydraddoldeb 2010. Os ydych chi, neu unrhyw grŵp arall, yn credu eich bod dan anfantais o ran unrhyw beth a gynhwysir yn y ddogfen hon, cysylltwch â'r Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn AD a fydd yna'n ymateb yn weithredol i'ch ymholiad.

## **Y BROSES O FONITRO CYDYMFFURFIAD**

Bydd y monitro cyffredinol yn gyfrifoldeb i'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth a'r Dirprwy Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth, fodd bynnag, rôl y Swyddog Diogelu Data fydd darparu adroddiadau rheolaidd a monitro i'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth.

Cwblheir y monitro drwy:

- Gynlluniau Gweithredu o'r Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd;
- Cynlluniau Gweithredu Asesiad Risg;
- Cofnodion Risgiau a Materion prosiect;
- Archwilio proses Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd yn flynyddol;
- Archwilio dogfennaeth Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd.

Bydd y diffygion a ganfyddir yn cael eu trafod ym Mhwyllgor Llywodraethiant Gwybodaeth a chynllunnir Cynllun(iau) Gweithredu.

## **TRAWS GYFEIRIO AT DDOGFENNAU TREFNIADOL ERAILL**

Polisi Diogelu Data  
Polisi Rhyddid  
Gwybodaeth Polisi  
Diogelwch Gwybodaeth  
Polisi a Gweithdrefnau Rheoli Risgiau

Mae'r holl bolisiâu a gweithdrefnau presennol ar gael yn yr adran bolisi o'r wefan gyhoeddus (ar y dudalen gartref, pwyswch ar 'Polisiâu a Gweithdrefnau'). Mae Cyfarwyddyd y Brifysgol ar gael i staff ar Fewnrwyd y Brifysgol.

### **ATODIAD A**

GWEITHDREFN I'R

ASESIAD O'R

EFFAITH AR

BREIFATRUYDD

Nod Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd yw sicrhau bod systemau a phrosesau yn y Brifysgol yn addas at y diben. Rhai o'r ystyriaethau sy'n rhaid eu cymryd i ystyriaeth yw a fydd prosiect/proses newydd (neu addasedig) neu ased gwybodaeth yn:

- Sicrhau bod y caniatâd hanfodol wedi'u cael gan y rheiny y defnyddir eu data personol;
- Effeithio ar ansawdd y wybodaeth bersonol sydd wedi'i chasglu eisoes;
- Caniatáu i wybodaeth bersonol gael ei gwirio am berthnasedd, cywirdeb a dilysrwydd;
- Ymgorffori gweithdrefn i sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei dileu trwy archifo neu ddinistrio pan nad oes ei hangen bellach yn unol â dargadwedd a chanllawiau dinistrio'r Brifysgol;
- Cael lefel ddigonol o ddiogelwch i sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei diogelu rhag mynediad anghyfreithlon neu heb awdurdod a rhag colled, dinistr, torri cyfrinachedd neu niwed damweiniol;
- Galluogi adalwad data i gefnogi parhad busnes mewn achos o argyfyngau neu drychinebau;
- Galluogi i wybodaeth bersonol gael ei lleoli a'i hadalw i fodloni ceisiadau mynediad pynciau;
- Addasu'r ffordd mae'r sefydliad yn cofnodi neu fonitro ac yn adrodd gwybodaeth gan system sefydliadol allweddol.

Gweler y cwestiynau sgrinio sydd â'r bwriad o'ch helpu chi i benderfynu a yw Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd yn hanfodol ai peidio.

Llenwch cymaint ag y gallwch a cheisiwch gyngor y Swyddog Diogelu Data os cewch broblemau